RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU
PWYLLGOR CRAFFU – CYLLID A CHYFLAWNIAD

'Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor: Economi (Adeiladu economi gref); Pobl (Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb); Lleoedd (Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o fyw a gweithio ynddyn nhw) yn ogystal â'i brif egwyddor, sef Byw o fewn ein Gallu.'

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig, wedi'i hamserlennu, ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu rhoi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y gwasanaeth;
- Monitro gweithredu argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol;
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yn natblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Am y rheswm yma bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn cael eu cyhoeddi am gyfnod o 6 mis a'u hadolygu bob chwarter.

PWYLLGOR CRAFFU – CYLLID A CHYFLAWNIAD					
Dyddiad/Amser	**Nod cyffredinol**	**Swyddog**	**Aelod o'r Cabinet**	**Gwahoddiad / Yn Bresennol**	**Craffu yn canolbwyntio ar...**
Dydd Llun, 8 Gorffennaf 2019, Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	<u>Cyfarfod Arbennig:</u> ➢ Gweithgarwch cyn y cam Craffu - Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol	Y Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella			**Craffu a Her** – Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith craffu ymlaen llaw ar yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol.
Dydd Mawrth 23 Gorffennaf 2019 Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	➢ Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4 (2018/19) ➢ Rhaglen Waith 2019/20	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella Cyfarwyddwr Gwasanaeth –			Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4 y Cyngor (2018/19). **Craffu a Her –**

		Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella			Trafod eitemau ar gyfer Rhaglen Waith y Grŵp Llywio ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20. Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ystyried pa dargedau o ran dangosyddion cyflawniad a ddylai gael eu hadolygu'n fanylach yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019-20. **Craffu a Her** – Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith cyn craffu ar y Cynllun Rheoli Cyrchfannau
	➢ Gosod targedau 2019/20	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella			
	➢ Gweithdy Cyn Craffu – Cynllun Rheoli Cyrchfannau.	Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu			
Dydd Iau 26 Medi 2019 Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	➢ Sesiwn Hyfforddi Rheoli'r Trysorlys	Hyfforddwyr Allanol			Pob Aelod Etholedig i gael cyfle i dderbyn hyfforddiant mewn perthynas â Rheoli'r Trysorlys Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys y Cyngor Rhoi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor mewn
	➢ Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys	Pennaeth Materion Cyllid: Addysg ac Adroddiadau Ariannol			
	➢ Gweithgor y Gofrestr Fwyd – Diweddariad	Rheolwr Trwyddedu a Diogelu Iechyd			

	➢ Sut mae'r Cyngor yn ymgynghori ➢ Adroddiad monitro blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ➢ Cartrefi di-waith a chymorth cyflogaeth yn y gymuned; (ER GWYBODAETH YN UNIG)	Rheolwr Materion Ymgynghori a Pholisïau Corfforaethol Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu			perthynas â'r Gweithgor y Gofrestr Fwyd. Ystyried sut mae'r Cyngor yn ymgynghori a derbyn trosolwg o ddull y Cyngor wrth ymdrin â'r broses Ymgynghori ar y Gyllideb Refeniw. **Craffu a Her –** Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith cyn craffu ar Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.
Dydd Iau 24 Hydref 2019 Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach	➢ Deall Cyllideb y Cyngor ➢ Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 (2019/20) ➢ Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau Rhondda Cynon Taf 2020–2022	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned			Rhoi cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor i'r Aelodau (er mwyn iddyn nhw ei ystyried yn y dyfodol). Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Cyflawniad Chwarter 1 y Cyngor (2019/20). **Craffu a Her –** Bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal gwaith cyn craffu ar Strategaeth a Chynllun

					Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau Rhondda Cynon Taf 2020–2022.
Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2019 **Ystafell Bwyllgor 1, Cwm Clydach**	➢ Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2 ➢ Ymgynghori ar y Gyllideb ➢ Adolygiad chwarterol Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad 2019/20.	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella			Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Cyflawniad Chwarter 2 y Cyngor. Aelodau'r Pwyllgor yn rhoi eu barn yn rhan o broses Ymgynghori Cyllideb Refeniw 2020/21. **Craffu a Her.** • A yw'r Rhaglen Waith yn addas ac yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl? • A yw'r Rhaglen Waith yn dangos canlyniadau ac amcanion clir? Aelodau'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad yn rhoi sylwadau mewn perthynas â'r Rhaglen Waith ac yn ystyried gweddill Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad 2019/20.

Meysydd Eraill i'w harchwilio:-

Rhaglen fuddsoddi i adfywio ystadau diwydiannol

Anghenion Hyfforddi:-

I'w hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf

Gweithgorau Craffu Cyfredol: - Gweithgor y Gofrestr Fwyd.